| CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD (2011 - 2026) | |
|---|---|
| **ARCHWILIAD CYHOEDDUS:**<br><br>**Sesiwn Gwrandawiad 16 - Monitro a Gweithredu a Materion Amrywiol** | Cyngor Gwynedd Council / Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council |

## [1] Pwynt Gweithredu 44 (S16/PG44) – Rhaglen waith

**Paratoi rhaglen waith i ymdrin gydag unrhyw waith sy'n ymwneud â Phwyntiau Gweithredu nad ydynt wedi eu paratoi a'r amserlen ar gyfer cyhoeddi Atodlen Newidiadau Materion sy'n Codi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a Chynllun Cyfansawdd diwygiedig.**

1.1 **Ymateb y Cynghorau**

1.2 Ers i Sesiwn Gwrandawiad 16 gael ei gynnal, mae'r Cynghorau wedi paratoi ymateb i'r pwyntiau gweithredu canlynol ac i ohebiaeth oddi wrth yr Arolygydd:

| |
|---|
| Paratoi rhestr pwyntiau gweithredu Sesiwn Gwrandawiad 16 |
| Pwynt gweithredu S2/PG3 - Tafluniad tai |
| Pwynt gweithredu S4/ PG3 - Cyflenwad tai fforddiadwy |
| Pwynt gweithredu S4/ PG4 - S4/ PG 7 & S4/ PG9 - Asesiad hyfywdra tai fforddiadwy a pholisïau |
| Pwynt gweithredu S5/ PG2 - tir cyflogaeth yng Ngaerwen |
| Pwynt gweithredu S6/ PG8 - Gwarchodfa Natur Trwyn Wylfa – ei statws |
| Pwynt gweithredu S8/ PG1 - S8/ PG8 - polisïau ynni adnewyddadwy |
| Pwynt gweithredu S14/ PG2 - tir ym Modedern |
| Pwynt gweithredu S16/ PG1 - S16/ PG39 - Fframwaith Fonitro |
| Pwynt gweithredu S16/ PG41 - nodyn eglurhad – oblygiadau deddfwriaeth newydd - Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru |
| Pwynt gweithredu S16/ PG40 - Polisi TRA 2 – safonau parcio |

| |
|---|
| Ymateb i lythyr gan yr Arolygydd (dyddiedig 14/10/16) - materion manwerthu a safle Glannau Caergybi |

| |
|---|
| Pwynt gweithredu S9/ PG 1 - 10 & S7/PG15 – Wylfa Newydd |

| |
|---|
| Pwynt gweithredu S3/PG4 & S15/PG2 - cyfleoedd ar hap ac ystadegau am Landegfan |

| |
|---|
| Pwynt gweithredu S13/PG2 - 6: polisïau llety Sipsiwn a Theithwyr |

| |
|---|
| Pwynt gweithredu S16/PG43 – perthynas rhwng y Fframwaith Fonitro a'r Asesiad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |

| |
|---|
| Pwynt gweithredu S16/42 & S1/PG3 – ffurf y Cynllun |

| |
|---|
| Pwynt gweithredu S3/PG1 - Cyffredinol |

| |
|---|
| Pwynt gweithredu S1/PG1 - adroddiadau Hwyluswyr Tai Gwledig |

| |
|---|
| Ymateb i lythyr gan yr Arolygydd (dyddiedig 18/11/16) - oblygiadau cyhoeddiad Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9) a NCT 4 |

1.3 Mae'r Cynghorau wedi paratoi'r dogfennau canlynol ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus am Newidiadau Materion sy'n Codi:

(i) Cofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi – Datganiad Ysgrifenedig

(ii) Cofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi – Mapiau Cynigion

(iii) Adendwm Asesiad Cynaliadwyedd o'r Newidiadau Materion sy'n Codi (Datganiad Ysgrifenedig a Mapiau Cynigion)

(iv) Adendwm Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Newidiadau Materion sy'n Codi (Datganiad Ysgrifenedig a Mapiau Cynigion)

(v) Cynllun Cyfansawdd yn ymgorffori Newidiadau Materion sy'n Codi

(vi) Hysbysiad am yr ymgynghoriad cyhoeddus

(vii) Ffurflenni sylwadau

1.4 Dyma'r amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus am y Gofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi a dogfennau cysylltiol a chamau dilyniannol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod ymgynghori cyhoeddus am y Gofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi a dogfennau cysylltiol | 26/1/17 – 9/3/17 |
| Cyhoeddi'r Cynllun Cyfansawdd | 26/1/17 |

| | |
|---|---|
| Gyrru copi o'r sylwadau a dderbynnir yn briodol i'r Swyddog Rhaglen i sylw'r Arolygydd (copi caled ac electronig) | Wythnos yn cychwyn 13/3/17 |
| Cyhoeddi copïau o'r sylwadau a dderbynnir (wedi eu golygu) yn Llyfrgell yr Archwiliad (copi caled ac electronig) | Wythnos yn cychwyn 20/3/17 |
| Cyhoeddi adroddiad o ymatebion i'r sylwadau a dderbynnir yn Llyfrgell yr Archwiliad (copi caled ac electronig) a gyrru copïau i'r Swyddog Rhaglen i sylw'r Arolygydd. | Wythnos yn cychwyn 20/3/17 (yn ddarostyngedig i'r nifer o sylwadau a dderbynnir) |

1.5 Deallir bydd yr Arolygydd yn penderfynu os fydd angen gwrandawiadau ychwanegol ar ôl derbyn copïau o'r sylwadau a gafodd eu gwneud yn briodol. Os penderfynir bod angen gwrandawiadau ychwanegol, gallir eu cynnal rhwng 24 Ebrill a 28 Ebrill 2017. Ar sail hynny, rhagwelir derbyn adroddiad yr Arolygydd i ymgymryd â'r broses gwaith gwirio ffeithiol erbyn diwedd mis Mai 2017.